I’r Gweinidogion Cymreig,

**Teithio Llesol (Cymru) Deddf 2013 Dyletswyddau Cofnodi**

Yn unol â’r dyletswyddau a nodir yn adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

| | |
|---|---|
| Y camau a weithredwyd i hybu teithiau llesol | Mae Map o’n Llwybrau Teithio presennol i’w weld ar ein gwefan.<br><br>Mae’r Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus a’r Adran Beirianyddol wedi cytuno ar ddyddiadau i fynychu amryw o ysgolion er mwyn trafod y llwybrau teithio llesol presennol gyda’r disgyblion a chael syniadau am lwybrau teithio newydd.<br><br>Mae’r Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi gwneud archwiliad i’r modd y defnynddir arwyddion yn y Fwrdeistref Sirol ac wedi canfod meysydd lle y gellir gwella’r ddarpariaeth.<br><br>Mae’r Adran Gynllunio, ar y cyd â’r Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi bod yn gweithio ar brosiect yn ddiweddar gyda mapiau Google sy’n cynnwys mapio rhai o’n llwybrau teithio mwyaf poblogaidd. Trwy ddefnyddio golwg stryd Google, rydym wedi cerdded ar hyd ein llwybrau taith mwyaf poblogaidd gan ddefnyddio camera golwg stryd Google. Mae hyn wedi’n galluogi i dynnu delweddau 360 gradd o’n llwybrau teithio, gan gynnwys Llwybr Taf. Bydd y delweddau yma yn ymddangos ar Golwg Stryd Google erbyn diwedd y flwyddyn. Gobeithiwn y bydd cael y delweddau yma ar Google yn cynyddu’r defnydd a wneir o’n llwybrau teithio.<br><br>Rydym yn gweithio’n agos gyda’n Partneriaid Canol y Dref er mwyn llenwi holiadur mewn digwyddiadau allweddol a |

| | |
|---|---|
| | gynhelir yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn cael cofnod o farn pob oedran. |
| Y camau a weithredwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd ac adnoddau a gwelliannau perthnasol | Mae ymgynghoriad ar y gweill i adnabod llwybrau teithio llesol oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. |
| Costau llwybrau teithio llesol newydd ac adnoddau a gwelliannau i lwybrau teithio llesol ac adnoddau presennol yn ystod y flwyddyn ariannol llawn ddiwethaf | Mae prosiect SRIC Penydre 2015-2016 i wella cysylltiadau cerdded a beicio ar gyfer cymunedau Dowlais / Pantyscallog / Galon Uchaf a Gurnos i Ysgolion, Ysbytai, siopai a Chyfleusterau hamdden werth £319,020.63 |

Yn ychwanegol i'r uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau teithio llesol newydd ac adnoddau a gwelliannau ar gyfer llwybrau teithio llesol presennol ac adnoddau perthnasol sy'n cael eu hariannu neu eu hariannu'n rhannol gan drydydd parti. | Ni ariannwyd unrhyw brosiectau trydydd parti. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Canllawiau ar Ddarpariaeth statudol.

Gareth Chapman
Prif Weithredwr